



Cyfras newydd, rhif 76

Haf 2026



**Owain yn derbyn anogaeth y teulu
cyn rhedeg Marathon Llundain, Ebrill 2026**

Myfyrdod – anogaeth

Comisiwn Iesu i Pedr (Ioan 21:15–22) a chynghorion i berson ifanc (Diarhebion 4:10–15)

Thema amlwg yn y ddau ddarlenniad hyn yw'r anogaeth i ddyfalbarhau er gwaethaf y sefyllfa bresennol neu'r troeon trwstan rydym yn debygol o'u profi. Mae'n siŵr fod pob un ohonom yn ein tro wedi teimlo'n flinedig, yn ansicr, neu hyd yn oed yn siomedig ynom ein hunain ac yn poeni am yr hyn fydd yn ein hwynebu. Ar adegau felly, mae angen anogaeth i barhau.

Yn Ioan 21, rydym yn cwrdd â Pedr ar ôl cyfnod anodd yn ei fywyd. Mae wedi gwadu Iesu deirgwaith. Mae wedi methu mewn ffordd sy'n debygol o fod wedi gwneud iddo deimlo cywilydd ac ansicrwydd am ei ddyfodol. Ond pan mae Iesu'n ei gyfarfod eto, nid yw'n ei wrthod. Yn hytrach, mae Iesu'n gofyn yn dyner deirgwaith: “Wyt ti wir yn fy ngharu i?” A phob tro mae Pedr yn ateb, mae Iesu'n ymateb: “Arwain fy nefaid.” Yna, mae Paul yn derbyn yr anogaeth: “Dilyn fi.”

Dyma un o'r delweddau mwyaf pwerus o anogaeth yn y Beibl cyfan. Nid yw Iesu'n anwybyddu methiant Pedr, ond nid yw chwaith yn ei ddiffinio ar sail y gwendid hwnnw. Yn hytrach, mae'n ei adfer. Mae'n rhoi pwrpas iddo eto. Mae'n ei alw ymlaen. Yn syml, mae Iesu'n dweud: “Dilyn fi.” Dyna'r anogaeth, ac mae gan Iesu'r ffydd a'r hyder ynddo i gyflawni ei gomisiwn.

Mae thema anogaeth yn amlwg hefyd yn y cynghorion i berson ifanc yn Llyfr y Diarhebion, ond mae natur yr anogaeth yn wahanol. Mae'r her yn glir: “Fy mab, gwrando'n ofalus ar beth dw i'n ddweud”. Dyna yw gobaith a dymuniad pob rhiant, ond eto ceir yma rybudd: “Paid dilyn llwybrau pobl ddrwg; paid mynd yr un ffordd â nhw”. Mae'n ein hatgoffa y byddwn yn wynebu heriau drwy gydol ein bywydau ond, o ddilyn y cynghorion a gwneud y paratodau angenrheidiol, bydd modd eu goresgyn. Mae Duw yn maddau fel yn achos Pedr ond hefyd yn ein hannog yn ein blaenau ac yn ein harwain ar hyd ein taith.

Yn ystod y misoedd diwethaf hyn rydym wedi clywed nifer o storïau am unigolion yn dyfalbarhau ac yn goresgyn heriau corfforol ac emosiynol. Ym mis Ebrill cynhaliwyd y SheUltra, pan wnaeth dros ddwy fil o ferched gyflawni'r her o gwblhau *ultra-marathon*, sef 50km, yn cerdded, rhedeg ac yn arbennig eleni yn brwydro yn erbyn y tywydd o gwmpas Llŷn gyda'r bwriad o godi ymwybyddiaeth o iechyd merched. Ond, fel y dywedodd Emma Walford ar raglen *Heno*, mae "Lot o bobl â'u heriau eu hunain, a'u stori bersonol ond ma' pawb yn 'i neud e am achos arbennig". Dyna oedd yr anogaeth i ddyfalbarhau a chyflawni camp anhygoel.

Ac eleni eto fe wnaeth dros 50,000 o bobl gwblhau marathon Llundain mewn amrywiol ffyrdd, pob un â'i stori a'i reswm arbennig dros gyflawni'r her. Mae teimlad arbennig iawn, a theimlad gwych o gyflawniad, i'w gael wrth redeg ochr yn ochr â miloedd o redwyr eraill mewn ras pellter hir. Ac mae hyn yn neilltuol o wir i'r rhedwr amatur a fydd wedi treulio wythnosau'n ymarfer rhedeg pellteroedd sylweddol, a hynny'n aml ar ben ei hun.

O'r unigolyn yn y wisg ffansi fwyaf rhyfeddol i'r athltewr elît, bydd clywed anogaeth y torfeydd ar hyd y cwrs – "Dal ati" – yn golygu cymaint. Yn ystod ras o'r fath, ofn pob rhedwr yw wynebu'r 'wal' chwedlonol – yr eiliadau ac, o bosib, y munudau anodd pan fydd yn holi ei hun ai parhau neu beidio. Mae'r llinell derfyn yn teimlo'n bell iawn. Nid yw'r anogaeth yn dileu'r anhawster – ond mae'n rhoi nerth i barhau.

Mae Pedr, ar ôl ei fethiant, yn clywed Iesu yn dweud: "Dilyn fi", ac yn Llyfr y Diarhebion, rydym yn clywed y cyngor i gerdded ar hyd y "llwybr iawn". Anogaeth i barhau sydd yn y ddwy enghraifft: i beidio ag ildio ar ôl methiant, i beidio â chrwydro oddi ar y llwybr cywir – ond i barhau ar hyd y daith.

(Seiliedig ar fyfyrddod a gyflwynwyd gan Delyth Jones a Linda Jones, yn y Garn, Ebrill 2026, gyda diolch i Meleri Jones)

Cyhoeddiadau'r Ofalaeth &c

5 Gorffennaf	Sul Hwyl yr Henaduriaeth am 10.30 o'r gloch Fferm y Bargoed, Llwyncelyn, Aberaeron dan arweiniad Martyn Geraint Gweithgareddau i blant a lluniaeth i bawb – croeso cynnes i blant ac oedolion
6–7 Gorffennaf	Cymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru yng Nghapel y Porth, Porthmadog
7 Gorffennaf	Ny Ako: adleisiau o Fadagascar Taith côr a dawnswyr Cristnogol Capel y Morfa, Aberystwyth, am 7 o'r gloch
30 Medi	Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro Capel y Garn a dros Zoom am 1.30 o'r gloch

Y Gymanfa Gyffredinol – Cyfarfodydd Cyhoeddus

Dydd Llun, 6 Gorffennaf, am 5 o'r gloch

Darlith y Gymdeithas Hanes

'O Gapel Celyn i Balesteina: Y Gydwybod Gymreig'

Dr Gareth Evans-Jones

Dydd Mawrth, 7 Gorffennaf, am 11.30 o'r gloch

Y Ddarlith Davies

'Methodistiaeth Galfinaidd a'r Gymru Newydd'

Y Parch. Ddr Andras Iago

Dydd Mawrth, 7 Gorffennaf, am 12.30 o'r gloch


Gwasanaeth Cymun a Choffâd

I Bregethu: Y Parch. John G. Roberts

Cyfeirnod Zoom: 882 3482 0558

Cod: 257955

Tudalen y Plant – Iesu a'r plant bach



Un diwrnod roedd pobl yn dod â'u plant at Iesu. Roedden nhw eisiau i Iesu roi ei ddwylo arnyn nhw a'u bendithio. Ond oedd y disgyblion yn anfon y bobl i ffwrdd gan eu bod nhw'n meddwl fod Iesu'n rhy brysur.

Gwelodd Iesu beth oedd yn digwydd a dywedodd wrth y disgyblion, "Gadewch i'r plant bach ddod ata i a pheidiwch byth â throi plant i ffwrdd. Mae plant bach yn llawn cariad ac yn ymddiried yn Nuw a rhai fel nhw fydd yn derbyn teyrnas Dduw."

Gosododd Iesu ei ddwylo ar y plant a'u bendithio. Dangosodd Iesu i'w ddisgyblion bod ganddo amser i bawb, hyd yn oed i blant.


Gweddi plentyn: O Dduw, diolch i ti dy fod ti'n caru plant fel fi. Diolch i ti dy fod yn barod i wrando arna i bob amser. Diolch i ti nad wyt ti byth yn rhy brysur i fod gyda fi. Plis, helpa fi i dy drystio di'n fwy bob dydd. Amen.

Cydymaith i'r Testament Newydd Cymraeg **gan John Tudno Williams**

Pnawn Llun, 1 Mehefin,
roedd Ystafell y Cyngor,
Llyfrgell Genedlaethol Cymru,
Aberystwyth, yn llawn
aelodau o deulu a chyfeillion
y Parch. Athro John Tudno
Williams ar achlysur lansio'i
gyfrol ddiweddaraf,
*Cydymaith i'r Testament
Newydd Cymraeg*. Mae'n
gyfrol arloesol sy'n cynnig
cipolwg newydd ar hanes ac
egwyddorion cyfieithu'r
Testament Newydd i'r
Gymraeg. Yn wir, hon yw'r
astudiaeth gyntaf yn
Gymraeg i gymharu'r
testunau Groeg a'u dylanwad
ar gyfieithiadau Cymraeg o'r
Beibl dros gyfnod o bedair canrif. Mae'n adnodd unigryw i
ysgolheigion, diwinyddion ac unrhyw un sy'n ymddiddori yn
hanes yr iaith Gymraeg a'r ysgrythurau.

Croesawyd pawb i'r lansiad gan Dr Maredudd ap Huw o'r
Llyfrgell Genedlaethol, a nododd ein bod yn lansio cyfrol oedd
yn coroni gyrfa o ysgolheictod diwinyddol eithriadol.

Yn dilyn hynny, cafwyd gair gan Aled Davies, Cyfarwyddwr
Cyhoeddiadau'r Gair, cyhoeddwy'r gyfrol. Mynegodd yntau ei
ddiolch i'r awdur, gan gydnabod ei lafur diflino yn llunio'r
Cydymaith gwerthfawr hwn. Cyfeiriodd hefyd at y cydweithio
hwylus â'r Llyfrgell Genedlaethol a gwaith cysodi gofalus Dr Rhys
Llwyd ar ran y wasg, cyn cyflwyno copi o'r gyfrol i'r awdur.





Yn ei ymateb, diolchodd yr Athro John Tudno am nawdd Cymrodoriaeth Ann Eilian Owen a Margaret Eilian Owen, drwy law'r Llyfrgell Genedlaethol, i'w alluogi i ymgymryd â'r gwaith. Eglurodd ei fod wedi mynd ati i gymharu cyfieithiad Cymraeg Beibl 1620 â'r Beibl Cymraeg Newydd (1988) gan nodi'r gwahaniaethau rhwng y ddau gyfieithiad ar sail y testun Groeg.


Yna, cafwyd cyfle i ddysgu mwy am y gwaith wrth i'r awdur ymateb i ambell gwestiwn gan ei frawd yng nghyfraith, Geraint Evans, a chafwyd sgwrs hwyliog rhwng y ddau.

Mae'r englyn a gyfansoddwyd gan ei fab, Tomos Gwyn, ar gyfer yr achlysur yn crynhoi camp yr Athro John Tudno i'r dim, ac estynnwn ein llongyfarchiadau calonnog iddo:

Gwirio bôn y gair byw – ysgoloriaeth
Hir genhadaeth ydyw;
Ymchwil hynod a chlodwiw,
Gorau dysg ar eiriau Duw.

Ny Ako yn lledaenu cariad ar draws Cymru

Mae grŵp o berfformwyr o Fadagascar ar daith o amgylch Cymru yn ystod yr haf. Mae Ny Ako, sy'n golygu 'adlais' yn yr iaith Falagaseg, yn cynnwys 13 o berfformwyr sydd i gyd wedi cymryd gwylliau blynyddol o'u swyddi arferol i fod yn rhan o'r daith hon. Trwy ddawns, cerddoriaeth, cân a'r gair llafar, maent yn gobeithio cyflwyno'r genedl i ddiwylliant cyfoethog Madagascar. Trefnwyd y daith gan Miara Rabearisoa, gweithiwr galluogi cenhadol gydag Eglwys Bresbyteraidd Cymru, ond sy'n hanu o F Madagascar.



Dywedodd Miara: 'Mae cysylltiad cryf rhwng Madagascar a Chymru. Roedd y cenhadon cyntaf a aeth i F Madagascar o Geredigion. Cyrhaeddodd David Jones a Thomas Bevan F Madagascar yn 1820 trwy wahoddiad Radama, brenin Madagascar. A phan gyrrhaeddodd nhw, fe ddechreuon nhw ysgol, eglwys ac fe ddysgon nhw'r iaith, Malagaseg. Nhw oedd yn gyfrifol am gyfieithu'r Beibl i'n hiaith am y tro cyntaf, ac yr oedd ei safon lenyddol ac ysgolheigaidd yn enwog trwy Affrica.

'Erbyn hyn mae miliynau o Gristnogion ym Madagascar. Yn wir, mae dros 60% o'r bobl Malagasi yn galw eu hunain yn Gristnogion, ac rydym mor ddiolchgar am yr hyn a ddechreuodd y cenhadon Cymreig yn ein gwlad. Ny Ako yw ein ffordd ni o ddweud diolch i bobl Cymru. Rydym yn adlais o'r cenhadon Cymreig a beryglodd eu bywydau wrth ddod â'r efengyl i ni ddau gan mlynedd yn ôl.

'Mae ein cyngherddau yn llawen ac yn llawn cynhesrwydd Malagasi. Gobeithiwn y bydd pawb sy'n dod yn teimlo'r cariad sydd yn ein calonnau at bobl Cymru.'

Mae Miara, ynghyd â'i wraig, y Parch. Rebecca Lalbiaksangi (gweinidog yn Eglwys Bresbyteraidd Cymru), a'u dwy ferch yn byw yn Nhrefaldwyn.

Bydd y grŵp yn cynnal cyngerdd yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth, nos Fawrth, 7 Gorffennaf, am 7 o'r gloch.

'Gras ein Harglwydd'

Gras ein Harglwydd Iesu Grist,
a chariad Duw,
a chymdeithas yr Ysbryd Glân
a fyddo gyda chwi oll
(2 Corinthiaid 13:13)

Yr adnod hon a ddewiswyd yn
thema'r Chwirydd ar gyfer
2026/27 – geiriau cyfarwydd
iawn i bawb, ond tybed a yw'r
geiriau wedi dod mor gyfarwydd
fel eu bod wedi colli eu hystyr i
ni? Wrth ddewis yr adnod hon
yn thema ar gyfer y flwyddyn, y
gobaith yw y bydd yn bosib
adfer rhywfaint o ryfeddod a
dyfnder y geiriau hyn.

Dyma weddi Paul wrth ddymuno bendith i'r eglwys gythryblus
yng Nghorinth ar derfyn ei lythyr atynt. Nid oedd yn llythyr
hawdd ei ysgrifennu gan fod yr eglwys yn wynebu llawer o
broblemau, a'i dasg ef oedd eu cywiro a'u hannog i
ddyfalbarhau a cheisio byw yn sanctaidd.

Gweddi Paul yw y byddai'r Cristnogion yng Nghorinth yn profi
mwy o ras, cariad a chymdeithas Duw. Onid yw hyn yn
rhywbeth sydd ei angen arnom i gyd, fel unigolion ac fel
eglwysi? Onid yw hyn yn rhywbeth y dylem weddio drosom
ein hunain a'n brodyr a'n chwiorydd yng Nghrist? Mewn
gwirionedd, dyna ein gweddi ... y bydd pob un ohonom yn
profi gras, cariad a chymdeithas Duw mewn ffordd fywiol.


(Sarah Morris, addas. o'r *Bwletin Cenhadol*, Gwanwyn 2026)



Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion

Cynhaliwyd y Gymanfa Ganu eleni yng Nghapel Bethel, Stryd y Popty, Aberystwyth.

Roedd gwasanaeth y bore yng ngofal plant y gwahanol ysgolion Sul. Mr Gregory Vearey-Roberts oedd arweinydd y ddau gyfarfod a chafwyd canu eneiniedig dan ei arweinyddiaeth. Yn ystod cyfarfod yr hwyr, cafwyd eitem hyfryd gan Barti Merched Ger y Lli.



Llywyddion y dydd oedd Dr Hywel Davies
a'r Parchg Judith Morris, a diolchwyd i swyddogion Pwyllgor
y Gymanfa am eu gwaith trwyadl drwy'r flwyddyn:
Cadeirydd: Dr Rhidian Griffiths; Ysgrifennydd: Miss Eleri
James; Trysorydd: Mrs Siân Pryce-Edwards.

Diolch hefyd i Alan Wynne Jones a Rhidian Griffiths fu'n arwain y rihysals ac i bawb fu'n ffyddlon iddynt.

Roedd yn braf gweld cynifer yn bresennol ar y diwrnod, yn enwedig tenoriaid a baswyr – ardderchog yn wir.

Edrychwn ymlaen yn eiddgar yn barod at Gymanfa 2027,
a gynhelir ar 25 Ebrill.

Heulwen Lewis

Gŵyl Genhadol Sasiwn y De

Cynhaliwyd yr ŵyl arbennig hon eleni yng Nghapel Blaenannerch ar 21 Mai, pan ddaeth cynulleidfya deilwng ynghyd o wahanol eglwysi'r De. Llywydd y cyfarfod oedd Mrs Bronwen Morgan, ac roedd y rhannau arweiniol yng ngofal gwragedd o'r tair Henaduriaeth.

Wrth groesawu pawb i'r cyfarfod, darllenodd Mrs Margaret Daniel gywydd o waith ei brawd, y diweddar Dic Jones, cywydd a ysgrifennodd erbyn Sasiwn 1983 ym Mlaenannerch, ond a oedd mor berthnasol i gyfarfod eleni yn ogystal.

Dr Eryn White oedd ein siaradwraig wadd gyntaf. Cawsom ganddi hanes Evan Roberts, a'i gysylltiad arbennig ef â Blaenannerch pan gafodd dröedigaeth yn 1904 wrth wrando ar Seth Joshua yn pregethu yno. Dyna ddechrau'r diwygiad a gysylltir ag enw Evan Roberts, a ymledodd yn fuan i ardaloedd cyfagos a thrwy Gymru benbaladr.

Cael ein herio a gawsom gan yr ail siaradwr, y Parch. Geraint Morse, wrth iddo ofyn: 'Beth yw eich stori chwi?' Cenhadaeth heddiw oedd ei destun ef. Nid rhywbeth i'w chadw i ni ein hunain yw ein stori, ond ei phwrpas yw ei bod yn cael ei rhannu ag eraill. Rhaid peidio â bod yn swil wrth adrodd ein stori, 'fel bo i eraill trwom ni / adnabod cariad Duw'.

Roedd yr emyn a ddilynodd, sef 'Sicrwydd bendigaid', yn plethu i'w neges yn berffaith: 'Dyma fy stori, dyma fy nghân, / canmol fy Nghheidwad hawddgar a glân'.

Cafwyd cyfarfod bendithiol iawn ac roedd y croeso a'r wledd ar ddiwedd y cyfarfod yn dwymgalon a chynnes dros ben – taith werth chweil oedd honno o Aberystwyth i Flaenannerch ar 21 Mai.

Gobeithir cynnal yr ŵyl y flwyddyn nesaf yn Llanddarog, sir Gaerfyrddin.

Heulwen Lewis

Capel y Garn

Llongyfarchiadau calonnog:

i Meinir Williams ar ennill doethuriaeth mewn leithyddiaeth ym Mhrifysgol Bangor, a phob dymuniad da iddi yn ei swydd yn Gymrawd Addysgu yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Abertawe;

i John Bowen ar ddathlu ei ben-blwydd yn 90 oed ar 6 Gorffennaf.

Anfonwn ein cofion at rai o'n haelodau sydd wedi methu ymuno â ni yn ein gwasanaethau yn ddiweddar, gan obeithio y byddwch yn ôl yn ein mysg yn fuan.

Estynnir ein cydymdeimlad dwys:

â Margaret Rees a'r teulu ar farwolaeth ei brawd, Eurof;

â Delyth Jones a'r teulu ar farwolaeth ei nai, Gwion;

â theulu'r ddiweddar Bet Evans, Hafod Elgar. Cofiwn yn arbennig am Gwynant, Sioned, Sharon a'u teuluoedd.

Bu Bet yn drysorydd diwyd a chydwybodol i Gymdeithas Lenyddol y Garn am flynyddoedd lawer a chofiwn yn annwyl amdani, gan ddiolch am ei gwasanaeth;

â theulu'r diweddar Gareth William Jones. Cofiwn yn arbennig am Gaenor, Rhian, Llŷr a'u teuluoedd. Bu Gareth yn gadeirydd hynaws a ffraeth ar Gymdeithas Lenyddol y Garn yn ystod tymor 2025-6 ac roedd yn gefnogol iawn i'r gwasanaethau cydenwadol yn y Garn.

Capel y Garn

Gorffennaf

Blaenor y mis: Gruffydd Aled Williams

- 1 Chwirydd y Garn yn cyfarfod am baned a sgwrs
Creffttau Pennau am 2 o'r gloch
- 5 Oedfa gymun am 10 o'r gloch
dan arweiniad Dr Rhidian Griffiths

Sul Hwyl yr Henaduriaeth am 10.30 o'r gloch
dan arweiniad Martyn Geraint
Gweithgareddau i'r plant a lluniaeth i bawb
Fferm y Bargoed (Moody Meadows), Llwyncelyn
- 12 Oedfa am 10 o'r gloch
dan arweiniad y Parch Ifan Mason Davies
- 19 Pererindod: cyfle i ymuno ag aelodau'r Noddfa
manylion i ddilyn
- 26 Oedfa am 10 o'r gloch
dan arweiniad y Fns Beti Griffiths

Cymorth Cristnogol

Cynhaliwyd gwasanaeth
arbennig dan arweiniad
y Parch. Eifion Roberts
bnawn Sul, 10 Mai,
ar ddechrau Wythnos Cymorth Cristnogol.

Gwnaed casgliad o £228 tuag at yr elusen -
diolch i bawb am eu cyfraniadau.



Capel y Garn

Awst

Ni chynhelir oedfaon yn y Garn ond mae croeso i bawb fynychu'r oedfaon undebol a gynhelir bob Sul yn un o gapeli Aberystwyth

- 2 Oedfa am 10 o'r gloch yng Nghapel Bethel, Stryd y Popty dan arweiniad y Parch. Judith Morris
- 9 Oedfa am 10 o'r gloch yng Nghapel y Morfa dan arweiniad y Parch. Eifion Roberts
- 16 Oedfa am 10 o'r gloch yng Nghapel Seion, Stryd y Popty dan arweiniad y Fns Beryl Vaughan
- 23 Oedfa am 10 o'r gloch yng Nghapel Bethel, Stryd y Popty dan arweiniad y Parch. Peter Thomas
- 30 Oedfa am 10 o'r gloch yng Nghapel y Morfa dan arweiniad Dr Rhidian Griffiths

Dathlu cyfraniad *Y Traethodydd* yn Eisteddfod y Garreg Las Am ganrif a thri chwarter a mwy, mae'r *Traethodydd* wedi gwasanaethu diwylliant Cymru a'i llên.

Dewch i babell Prifysgol Aberystwyth am 2 o'r gloch bnawn Mawrth, 4 Awst, i ddathlu parhad cylchgrawn llenyddol hynaf Cymru.

Bydd Eryn White yn sôn am hanes cyhoeddi cylchgronau yn y Gymraeg a Dylan Iorwerth yn trafod eu dyfodol yn yr oes ddigidol.

Trafodaeth fer a derbyniad i ddilyn.

January 2026
Y Traethodydd



Cyffes Aled Jones Williams
Helydd Lion Wigley ar farchod cynnau y Rhod
© Sion Williams a'r Ffynhonnell, The Llwyn Haulbar

Capel y Garn

Medi

Blaenor y mis: Alan Wynne Joes

- 2 Chwirydd y Garn yn cyfarfod am baned a sgwrs
Crefftau Pennau am 2 o'r gloch
- 6 Oedfa am 10 o'r gloch
yng Nghapel Noddfa
- 13 Oedfa am 10 o'r gloch
dan arweiniad Dr Rhidian Griffiths
- 20 Oedfa gymun am 10 o'r gloch
dan arweiniad y Parch. Ddr R. Watcyn James
- 27 Oedfa am 10 o'r gloch
dan arweiniad y Parch. Peter Thomas



Rhai o chwirydd y Garn yn mwynhau paned a sgwrs ym mwyty
Crefftau Pennau ddechrau Mehefin

Ina Tudno Williams

Fore Mercher, 4 Mawrth 2026, taenwyd tristwch dwfn trwy fro'r Paith pan glywyd am farwolaeth Ina Tudno Williams, Bryn Awel. Fel bro, capel, ysgol Sul a Chymdeithas y Paith, estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â John Tudno, Haf Hayes, Tomos Gwyn, Geraint Evans a'r cysylltiadau oll.

Yn ein tristwch yn Seion, cofiwn, gwerthfawrogwn a diolchwn am gael adnabod ffrind cywir, blaenores ffyddlon ac arweinyddes feistrolgar. Cofiwn am ei gweithgarwch diarbed am dros bedwar deg a dau o flynyddoedd yn Seion, a hynny bob amser yn arddangos y graen cywiraf fel athrawes ysgol Sul, arolyges, organyddes a chyd-weithwraig hoffus.

Gyda'i hoffter o farddoniaeth a cherddoriaeth, yn ogystal â'i llais canu swynol, roedd y Gymanfa Ganu yn bwysig iawn iddi. Ar sail ei chyfraniad gwerthfawr drwy'r blynyddoedd i'r ysgol Sul derbyniodd hefyd anrhydedd y Fedal Gee.

Roedd Ina yn gymeriad cadarn, yn gymwynaswraig gydwybodol a oedd yn meddu ar wybodaeth eang a thrylwyr, a chyfrannodd yn gyson ac yn eiddgar i'r papur bro poblogaidd *Y Ddolen*.

Trefnodd bererindodau diddorol ac addysgiadol – nifer ohonynt yn lleol ac eraill gryn bellter o Seion – hir y cofir amdanynt.

Cofiwn yn garedig am ffrind cywir i bawb a Christion clodwiw a oedd yn llawn doethineb a chysondeb. Ysgwyddodd nifer o swyddi gyda brwdfrydedd ac ymroddiad.

Bu'n ysgrifennydd cyffredinol ac yn ysgrifennydd cyhoeddiadau yn Seion am flynyddoedd lawer, gan gyflawni'r swyddi â dyfalbarhad ac arddeliad.

Yn ogystal,
gweithredodd fel aelod
gwerthfawr ar
amrywiol bwyllgorau'r
Henaduriaeth.

Ble bynnag y byddai
Ina, roedd ei chroeso,
ei hanogaeth, a'i
chymradwyaeth yn
calonogi pawb o'i
hamgylch.

Diolchwn am y fraint o
gael adnabod person
mor arbennig, gwraig
hawddgar, yn llawn
brwdfrydedd, ac un a
oedd yn ysbrydoli ac
yn parchu pawb, o'r
ieuengaf hyd yr hynaf, wrth gyfrannu at fwrlwm
gweithgareddau'r capel, yr ysgol Sul a'r Gymdeithas.

Yr hyn a allodd Ina ei gyflawni, fe'i gwnaeth er lles ei chyd-
fforddolion yn ei chymuned yn Seion, ac yn ehangach trwy
Gymru a thu hwnt, gan gerdded yr ail filltir â llawenydd
mawr. Dim ond y gorau a wnâi'r tro i Ina bob amser.

Diolchwn, gwerthfawrogwn, cofiwn.

John Gwynn Jones



Erddyn James

Ar 26 Chwefror eleni, yn 90 mlwydd oed, flwyddyn ar ôl colli Gwenda, ei gyymar oes, bu farw Erddyn Lloyd James, Lluarth, Taigwynion, tad Penri a Llyr, tad yng nghyfraith Llio a Rhian, tad-cu Osian, Rhun, Gwern, Lleucu a Besi, tad-cu yng nghyfraith Erwain, Vicky a Rhianedd, a hen dad-cu Betsan, Lewys a Nina.

Yn Rhydyfelin y ganwyd ac y magwyd Erddyn, yn un o chwech o blant William a Martha James. O ardal Llanilar a Llangwryfon yr hanai teulu William James, ond roedd cysylltiadau rhwng teulu Martha ac ardal Cwm Maethlon, Sir Feirionnydd, ac o'r ardal honno y daeth yr enw Erddyn – mae yno Lyn Erddyn.

Braint ei blant fu cael ei glywed yn fynych yn galw i gof hanesion plentyndod hapus a gwreiddiedig yn Rhydyfelin, megis darganfod ogof Morfa Bychan, marchogaeth ceffylau Tanycastell, chwarae yng nghoedwig y Glog, a threulio amser yn pysgota yn afon Ystwyth.


Mynychodd Ysgol Gynradd Penparcau ac Ysgol Ramadeg Ardwyn, ac wedyn, pan oedd yn un ar bymtheg oed, dechreuodd weithio yn plannu coed i'r Comisiwn Coedwigo. Pan ddaeth ei dro i wneud ei Wasanaeth Milwrol fe'i hanfonwyd i yrru lorïau'n llusgo gynnu mawrion gyda'r 50 Heavy Ack Ack Royal Artillery yn yr Alban. *"A good driver who will work well without supervision"* oedd geiriau ei bennaeth yn ei dysteb iddo ar ei *demob*!

Ar ôl dod yn ôl i Aberystwyth bu'n yrrwr ac yn rheolwr siop i Tom Alun cyn mynd yn borthor i'r Brifysgol. Yna, cafodd ei benodi'n argraffydd i'r Brifysgol, swydd y bu wrth ei fodd ynddi am ran helaethaf ei yrfa.

Priododd Erddyn â Gwenda Rowlands, Taigwynion, ym mis Awst 1960, ac ymgartrefodd y ddau yng Ngorwel Deg, Taigwynion, hen gartref teuluol Gwenda, lle ganwyd Penri a Llyr.

Yn ystod eu 65 mlynedd o fywyd priodasol ysgwyddodd Erddyn ei ddyletswyddau teuluol yn ddiatal, gan ofalu am Gwenda drwy ei nychdod hir a phoenus, a rhannu'r cyfrifoldebau teuluol o gludo'r plant a'r wyrion, yn eu tro, i'w hysgolion neu i ddilyn eu gwahanol ddiddordebau.

Bu'n barod ei gyfraniad hefyd at weithgareddau nifer o gymdeithasau yn ei ardal fabwysiedig: bu'n aelod o Gyngor Cymuned Genau'r Glyn am ddeugain mlynedd, yn Ysgrifennydd Pwyllgor y Neuadd, yn Gadeirydd Pwyllgor Snwcer y Neuadd ac yn aelod o Gôr Cantre'r Gwaelod.



Roedd yn arlunydd da, er na ddatblygodd ei ddawn, ond fe hunan-ddysgodd y grefft o ysgrifennu'n gywrain a'i defnyddio i beintio arwyddion tai ac enwau ar ambell lorri a thractor. Erddyn a luniodd arfbeisiau tair ar ddeg hen sir Cymru – yr arfbeisiau a fyddai'n cael eu harddangos yn flynyddol yn yr Albert Hall yng nghyngherddau Gŵyl Ddewi Cymry Llundain.

Fe'i hetholwyd yn flaenor yn y Garn yn 2005 a gwnaeth gyfraniad gwerthfawr yn dawel ac mewn ffordd ymarferol. Bu wrthi'n brysur yn peintio waliau'r festri ac fe beintiodd ysgoldy Bethlehem, a oedd yn agos iawn at ei galon ef a Gwenda, yn lliw cynnes a chartrefol.

Roedd yn dynnwr coes cynnil a chyson, ac wrth ei fodd yn dod â gwên i wynebau ei gwmni, lle bynnag yr oedd. Ac addas iawn oedd y cwpled ar ei daflen angladdol:

Lle bo gwên a llawenydd
Mwynach cyfeillach a fydd.

A dyna sut y bydd ei gydnabod yn ei gofio – yn ddyn mwyn, cyfeillgar a llawen.

Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth

Glyn Saunders Jones, Llandre, oedd y gŵr gwadd yn y cyfarfod a gynhaliwyd yn festri Rehoboth ar 10 Mawrth, a theitl ei sgwrs oedd 'Dilyn y Freuddwyd'.

Adroddodd hanes ei fywyd hyd at y presennol. Yn 2003 penderfynodd adael ei swydd fel Pennaeth y Ganolfan Astudiaethau Addysg ym Mhrifysgol Aberystwyth i 'ddilyn ei freuddwyd' a sefydlu cwmni Atebol. Ef yw Cyfarwyddwr y cwmni sydd â'i bencadlys yn y Fagwyr, a dros y blynyddoedd maent wedi cyfrannu'n helaeth i fyd cyhoeddi a llenyddiaeth Gymraeg.

Mae'r cwmni wedi ehangu'n sylweddol erbyn hyn drwy fod yn flaengar, a Cyfatebol yn rhan arall o'r cwmni sy'n darparu gwasanaethau cyfieithu ac isdeitlo ar gyfer rhaglenni teledu.

Yn 2003 yn ôl fe dderbyniodd Glyn a'i wraig, Gill, Wobr Cyfraniad Arbennig gan Gwlwm Cyhoeddwy'r Cymru i gydnabod eu gwaith arbennig ym myd cyhoeddi yng Nghymru.

Mae'n braf medru sôn am lwyddiant busnes lleol, a diolchwyd yn gynnes i Glyn am rannu ei freuddwyd a'i brofiadau gyda ni. Yna mwynhawyd y te a baratowyd gan Falyri Jenkins.



Cyfarfu'r aelodau yng nghaffi Poppys brynhawn Mawrth, 14 Ebrill, i fwynhau te prynhawn i gloi tymor Cymdeithas y Chwiorydd am eleni. Estynnwyd croeso i bawb gan Meinir Fleming, a chafwyd prynhawn dymunol iawn wrth fwynhau'r bwyd a sgwrsio gyda'n gilydd.

Carys Briddon

Cymdeithas Lenyddol y Garn

Daeth tymor y Gymdeithas Lenyddol i ben eleni nos Wener, 24 Ebrill, gyda noson yng nghwmni Georgia Ruth. Mae Georgia'n gantores ac yn gyfansoddwraig lwyddiannus a hefyd yn cyflwyno rhaglen bob wythnos ar Radio Cymru. Yn fwy diweddar, mae hi wedi troi at ysgrifennu ac fe gyhoeddodd ei nofel Saesneg gyntaf, *Tell Me Who I Am*, a'i chyfrol Gymraeg *Casglu Lluch* yn 2024. Casgliad o ysgrifau personol a myfyrddodau yw *Casglu Lluch*, ac roedd y gyfrol ar restr fer Llyfr y Flwyddyn 2025 yn y categori Ffeithiol-greadigol.



Darllenodd Georgia nifer o ddarnau amrywiol o'i gyfrol, gan egluro'u cefndir a'u cyd-destun a rhoi cipolwg diddorol ar rai o'r dylanwadau fu arni.

I gloi'r noson, fe'n swynodd â'i dehongliad o'r gân werin 'Llongau Caernarfon'. Noson hyfryd a chartrefol oedd yn glo teilwng i dymor llwyddiannus arall yn hanes Cymdeithas Lenyddol y Garn – gyda diolch i nawdd cynllun Noson Allan Fach Cyngor y Celfyddydau.

Cristnogaeth a Byd Natur

Cwestiwn pwysicaf ein hoes ni yw p'un a all y ddynoliaeth ddod o hyd i ffordd o fyw nad yw'n treisio byd natur, yr ydyn ni'n gwbl ddbynol arno er mwyn goroesi, heb sôn am ffynnu.

Ar hyn o bryd mae ein holl ddiwylliant, ein hobsesiwn â thwff economaidd, ein symudoledd diorffwys a'n prynwriaeth drachwantus a gwastrafflyd yn ein gyrru'n bendramwnwgl i'r cyfeiriad anghywir. Mae argyfyngau'n pentyrru.

Yn yr amgylchiadau hyn, does bosibl nad oes angen i Gristnogaeth ddod â rhyfeddod a pharch at natur a gofal amdani i ganol ei thystiolaeth a'i haddoli.

Byddai gwneud hynny'n unol â thema Argyfodiad, sydd, wrth gwrs, yn ganolog i'r mythos Cristnogol. Nid cyd-ddigwyddiad yw fod hanes y Pasg yn digwydd yn y gwanwyn, na bod y stori wefreiddiol yn Efengyl Ioan am Fair Magdalen yn gweld yr Iesu atgyfodedig yn digwydd mewn gardd. Ar lawer ystyr, gŵyl ffrwythlondeb y Ddaear yw'r Pasg.

Fel y rhyfeddodd Mair hyd at ddagrau o sylweddoli nad oedd y gobaith am gymdeithas wahanol iawn – Teyrnas Nefoedd, 'megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd' – wedi marw'n derfynol, mae angen i Gristnogaeth heddiw feithrin rhyfeddod at natur ac ymrwymiad i'w gwarchod ymysg ei haelodau, ac iddyn nhwythau ei ledaenu yn y gymdeithas ehangach.

Gobeithio nad rhyfyg ar fy rhan, rai blynyddau 'nôl, oedd mentro ar lunio Credo amgen sy'n cyfleu'r syniadau hyn ac yn addas i'n byd cyfoes. Nid er mwyn disodli'r credoau traddodiadol y gwnaed hyn, ond i'w ddefnyddio'n gyfochrog â nhw. Dyma fe:

Credo i'r 21fed Ganrif

Rhyfeddu ac Ymostwng

Plygwn yn ostyngedig yn wyneb
rhyfeddod y Bydysawd –

ei bellteroedd anhraethol
ei alaethau a'i fydoedd aneirif
ei yriant creadigol
ei undod a'i drefn
dirgeledigaethau gofod ac amser
ceinder y bychanfydoedd cuddiedig
gwyrth Bywyd.



Gwerthfawrogwn y fraint anhraethol o gael bod yn rhan,
ennyd awr, o lif Bywyd ar ein planed amhrisiadwy ni.



Derbyn Cyfrifoldeb

Cydnabyddwn gyfrifoldeb arbennig y
ddynoliaeth

i drysori a gwarchod cyfoeth byd natur.

Cydnabyddwn

ein galluoedd unigryw ymysg yr anifeiliaid
ein tueddiad i ymrannu, chwalu a dinistrio
ein hunanoldeb barus a'n creulondeb.

Ymrwymwn o'r newydd

i oresgyn tueddiadau gwaethaf ein natur
i fyw mewn cytgord â'n cyd-ddynion
i fod yn stiwardiaid cariadus ar fyd natur
i wneud daioni ac i hyrwyddo cariad
i ddilyn esiampï ac ufuddhau i ddysgeidiaeth Iesu
ac i weithio dros ddyfodiad ei Deyrnas ar y ddaear.



Credu

Credwn mai ein pennaf gyfrifoldeb yw gwneud
cydymdeimlad yn rym gloyw ac egnïol yn ein byd,
gan ymrwymo:

i drin eraill fel y dymunem ni gael ein trin
i ymwrthod â thrais ac i hyrwyddo heddwch
i laesu dioddefaint ein cyd-greaduriaid
i'n diorseddu ein hunain o ganol bywyd, ac
i gydnabod ein cyd-ddibyniaeth
i fawrygu sancteiddrwydd cysegredig
ein cyd-ddynion oll.

**'Mae Teyrnas gref, a'i rhaith
yw cydymdeimlad maith'**
(Waldo)

Amen.

Swyddogion yr Ofalaeth

Cadeirydd: Alwyn Hughes, Madog

Is-gadeirydd: Glyn Saunders Jones, y Garn

Ysgrifennydd: Gruffydd Aled Williams,

Bronafon, Dolau, Bow Street, Aberystwyth, Ceredigion, SY24 5AE
(ffôn: 01970 820664; ebost: gawilliams1@btinternet.com)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **13 Medi** i'r golygydd:

Marian B Hughes, 14 Maes y Garn, Bow Street
01970 828662; marian_hughes@btinternet.com